# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

**2016 dccc 4**

## RHAN 3

ADEILADAU RHESTREDIG

*Trosolwg*

### 23 Trosolwg o'r Rhan hon

Mae'r Rhan hon yn ymwneud â gwarchod adeiladau yng Nghymru sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Mae'n gwneud darpariaeth—

(a) i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn cynnwys adeilad mewn rhestr o adeiladau, neu eithrio adeilad o restr o adeiladau, o dan adran 1 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p.9) ("Deddf 1990") (adran 24);

(b) i roi gwarchodaeth statudol i adeilad wrth i Weinidogion Cymru benderfynu pa un ai i gynnwys yr adeilad mewn rhestr (adran 24);

(c) i Weinidogion Cymru adolygu eu penderfyniad i gynnwys adeilad mewn rhestr (adran 24);

(d) ar gyfer addasu'r trefniadau rhestru dros dro a gychwynnir drwy gyflwyno hysbysiad diogelu adeilad yng ngoleuni'r ddarpariaeth a grybwyllir ym mharagraffau (a) a (b) (adran 25);

(e) i Weinidogion Cymru ardystio nad ydynt yn bwriadu cynnwys adeilad penodol mewn rhestr (adran 27);

(f) i awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru ymrwymo i gytundeb â pherchennog adeilad rhestredig ynghylch materion megis cydsyniad i waith gael ei wneud i'r adeilad (adran 28);

(g) i awdurdod cynllunio lleol ddyroddi hysbysiad stop dros dro mewn achos sy'n ymwneud â gwaith penodol i adeilad rhestredig (adran 29);

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, Adran 23 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 25 Gorffennaf 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(h) i estyn cwmpas y gwaith brys y caiff awdurdod cynllunio lleol ei wneud o dan Ddeddf 1990 ac i ddarparu i gostau'r awdurdod wrth wneud y gwaith hwnnw fod yn adenilladwy fel pridiant tir lleol (adran 30);

(i) i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch camau pellach y caniateir iddynt gael eu cymryd i sicrhau bod adeiladau rhestredig yng Nghymru sydd wedi mynd i gyflwr gwael yn cael eu diogelu'n briodol (adran 31);

(j) i alluogi cyflwyno drwy gyfathrebiadau electronig fathau penodol o hysbysiadau a dogfennau eraill sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig (adran 32);

(k) mewn perthynas â phenderfynu ar apelau penodol sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig gan bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru (adran 33).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 23 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 41(1)(d)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, Adran 23 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 25 Gorffennaf 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**

– Act repealed by 2023 asc 3 Sch. 13 para. 193